# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Mai 13eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwynfryn Williams, Catrin Charles, Arwel Davies a Huw Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 11eg 2025) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

### iv) Gohebiaeth

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn
i) Gwahoddiad i agoriad swyddogol Canolfan Bro Tegid.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mai 2025.

ch) Amrywiol.
i) Dŵr Cymru – gwahoddiad i ymweld a'i safle yn Llyn Celyn i gael diweddariad ar y gwaith adeiladu gorlifan newydd. **Cafwyd adroddiad gan Geraint Jones o'r datblygiadau diweddaraf.**
ii) Llythyr gan unigolyn yn gwrthwynebu bwriad Angling Cymru i gynnal digwyddiad caiacio ar Lyn Tegid ym mis Medi. **Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw fanylion swyddogol am y digwyddiad nid oedd yn bosib iddynt roi barn ar hyn o bryd.**
iii) Parc Cenedlaethol – gwahoddiad i gyfarfod Zoom i roi diweddariad ar eu proses o ddiwygio eu cynlluniau strategol.

### v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/241B - Adran 257, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Bwriad i wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 49, ger 1 Maes Gwyn, Rhyduchaf.
NP5/72/223G – Trosi adeilad allanol i ffurfio anecs i'r annedd presennol. Blaen y Cwm Isaf. Parc.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept, £2375.

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu – Zurich (yswiriant) - £214.00**

c) Ceisiadau ariannol.
Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity**- cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

**vii) Materion lleol.**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 10fed YN NEUADD MAESYWAEN.**